



yr Athro

Argyfwng Ariannu

Wrth i ysgolion ymbaratoi i dderbyn gwybodaeth am eu cyllidebau, does neb yn llawenhau.

Mae pawb yn barod am doriadau pellach.

Toriadau i swyddi, toriadau i oriau, toriadau i wasanaethau ac i gefnogaeth sylfaenol.

Ac yn sgil hynny, llai o bobl yn ysgwyddo baich cynyddol – ac yn brwydro yn erbyn y ffactorau i ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf i blant a phobl ifanc.

Mae UCAC wedi bod yn trafod ariannu gyda Llywodraethau San Steffan a Cymru, a gydag Awdurdodau Lleol ers tro.

Nawr mae ymgyrch cyd-undebol – **Toriadau i Ysgolion** - yn cael ei lansio i bwysu ar y cyd am newid.

Bydd UCAC, ar y cyd ag ASCL, NAHT a'r NEU yn cynnal Cyfarfod Briffio ar gyfer Aelodau Cynulliad o bob plaid yn y Senedd ar 5 Mawrth – gydag aelodau UCAC sy'n arweinwyr ysgol yno i ddisgrifio'r sefyllfa ar lawr gwlad i'r gwleidyddion.

Rydym eisoes wedi rhoi tystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol: https://www.ucac.cymru/images/Ymgynghoriadau/1812_Cyllido_Ysgolion.pdf A bu Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC, Dilwyn Roberts-Young gerbron y Pwyllgor yn rhoi tystiolaeth lafar ym mis Chwefror.

Ar ran UCAC, bu Eirlys Edwards (Pennaeth, Ysgol Gynradd Cerrigydrudion), Ceri Emanuel (Pennaeth, Ysgol Gynradd Gymraeg Pontardawe) a Meurig Jones (Pennaeth, Ysgol Gyfun Llangynwyd) mewn sesiwn trafod ar gyfer rhanddeiliaid allweddol gyda'r Pwyllgor i



Dilwyn Roberts-Young gerbron y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

roi iddynt ddarlun o'r sefyllfa yn eu hysgolion a'u hardaloedd nhw. Rydym yn ddiolchgar dros ben iddynt am roi o'u hamser.

Gweithred 2 funud!

Mae UCAC yn annog pob aelod i lofnodi e-ddeiseb ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:

<https://bit.ly/2XbQRr7>

Mae'n galw ar Lywodraeth Cymru “**i ddiogelu cyllid ysgolion ac, os na all wneud hynny, i gydnabod effaith toriadau ar ddarpariaeth addysgol, yn enwedig ar gyfer y dysgwyr sydd fwyaf agored i niwed.**”

Bydd llofnodi'n cymryd llai na 2 funud i chi – ac os bydd 5,000 llofnod neu fwy, mi all olygu y caiff ei drafod ar lawr y Cynulliad.

Cynhadledd Flynyddol UCAC: 5-6 Ebrill



Gwesty'r Metropole yn Llandrindod fydd y lleoliad braf a chyfarwydd i nifer, ar gyfer ein Cynhadledd eleni – felly dewch yn llw i fwynhau'r trafodaethau, y cwmni, yr adloniant a blas o'r canolbarth.

Yn ôl yr arfer, bydd trafodaethau ar amrywiaeth eang o bynciau – wedi'u cynnig gennych chi, aelodau'r undeb mewn Adrannau a Chymdeithasau Sir ledled Cymru yn ystod y tymor hwn.

Byddwn yn croesawu'r **Gweinidog Addysg Kirsty Williams AC** unwaith eto i'n hannerch ac i ymateb i'ch cwestiynau. Felly dechreuwch lunio'ch cwestiynau nawr...

Bydd sesiynau ymylol gan **Guto Aaron** sy'n aelod o UCAC ac yn ddarparwr hyfforddiant, cyngor ac adnoddau i ysgolion ac athrawon ar y defnydd effeithiol o dechnoleg yn y dosbarth, a gan **gwmni Chrysalis** sy'n "grymuso athrawon ac addysgwyr i ddatblygu cadernid personol ac yn rhoi iddynt strategaethau ymdopi ar gyfer ymdrin â phwysau bob dydd".

Cysylltwch am ragor o fanylion ucac@ucac.cymru 01970 639950.

Bwrdd Golygyddol

Llywydd Cenedlaethol: Roger Vaughan

Is-Lywydd: Julia James

Ysgrifennydd Cyffredinol: Dilwyn Roberts-Young

Cydylynydd Yr Athro: Rebecca Williams

Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU Ffôn: 01970 639950, ucac@ucac.cymru, www.ucac.cymru

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am Yr Athro.

Blwyddlyfr UCAC

Hoffem dynnu'ch sylw, ymlaen llaw, at y ffaith na fydd UCAC yn cynhyrchu Blwyddlyfr eleni.

Gwyddom fod nifer ohonoch chi yn hoff iawn o - ac yn ddibynol iawn ar - eich Blwyddlyfr UCAC.

Gwyddom yn ogystal, fod canran uchel o'r aelodaeth nad ydynt yn ei ddefnyddio o gwbl a'i fod yn mynd yn wastraff.

Ar ôl pwysu a mesur yn ofalus, penderfynodd Cyngor Cenedlaethol yr undeb nad yw'r Blwyddlyfr yn cynnig gwerth da am arian mwyach, ac nad yw'n gynaliadwy ar sail amgylcheddol.

Penderfynwyd yn unfrydol y gellid gwneud defnydd llawer gwell o'r arian sylweddol sy'n cael ei wario ar argraffu a phostio'r Blwyddlyfr yn flynyddol i wasanaethu aelodau mewn ffyrdd mwy effeithiol.

Ymddiheurwn am unrhyw siom neu anghyfleustra.

Ond cofiwch fod gwasg Y Lolfa'n cynhyrchu dyddiaduron Cymraeg o wahanol feintiau (A4, A5, poced) am brisiau rhesymol dros ben a bod y rhain ar gael i'w prynu mewn siopau llyfrau lleol, Eisteddfodau a dros we: www.ylolfa.com

Saesneg yn orfodol yn y Cyfnod Sylfaen?

Ar 28 Ionawr, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad **Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol** – sef Papur Gwyn sy'n paratoui'r ffordd at roi'r cwricwlwm a threfniadau asesu newydd ar waith (rhagor o wybodaeth isod).

O fewn byr o amser, roedd nifer o fudiadau, gan gynnwys UCAC, wedi sylwi ar gymalau oedd yn achosi pryder difrifol, er enghraifft cynnig bod:

“Dyletswydd ar bob ysgol a Lleoliad Meithrin a Gyllidir i addysgu Saesneg, fel elfen orfodol o'r cwricwlwm newydd i Gymru.”

Dywedodd Rebecca Williams, Is-ysgrifennydd Cyffredinol UCAC “**Mae'r cynnig yn y Papur Gwyn i wneud y Saesneg yn bwnc gorfodol yn y Cyfnod Sylfaen yn destun pryder sylweddol iawn.**”

Dywedodd “**Mewn sefyllfa fel yng Nghymru ble mae iaith leiafrifol yn cydfyw ag un o ieithoedd mwyaf grymus y byd, y model trochi sy'n llwyddo orau i oresgyn yr anghydbwysedd grym. Mae'n rhoi gafael cynnar a naturiol ar y Gymraeg i'r plant tra'n caniatáu iddynt ddatblygu eu sgiliau Saesneg yn llawn hefyd.**

“**Mae'r cynnig yma'n bygwth y drefn hynod effeithiol sy'n bodoli ar hyn o bryd ac yn mynd yn gwbl groes i bolisi Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae'n bwysig yn ogystal tynnu sylw at y ffaith nad yw'r cynnig yn dod o adroddiad Yr Athro Graham Donaldson**

‘Dyfodol Llwyddiannus’ – sy'n sail ar gyfer y diwygiadau i'r cwricwlwm.”

Codwyd y mater mewn cwestiynau i'r Gweinidog Addysg (Kirsty Williams AC) ac i'r Gweinidog dros y Gymraeg (Eluned Morgan AC) yn ystod y dyddiau dilynol – a'r ddwy yn gwadu bod unrhyw fygythiad i ddulliau trochi.

Erbyn yr wythnos wedyn, roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **Datganiad ar barhad trochi plant yn y Gymraeg** i gyd-fynd â'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn

“O bwysio a mesur, rydym yn cydnabod nad yw geiriad y cynnig ... yn adlewyrchu ein bwriad. Byddai'n arwain at ganlyniadau anfwriadol o ran ysgolion cyfrwng Cymraeg a lleoliadau meithrin a gyllidir fel y Cylchoedd Meithrin, sy'n trochi plant yn y Gymraeg. I fod yn hollol glir felly: **ein cynnig yw y bydd y cwricwlwm newydd yn parhau i alluogi ysgolion a lleoliadau, fel y Cylchoedd Meithrin, i drochi plant yn y Gymraeg yn llwyr.** Fe sicrhawn y bydd unrhyw gynigion deddfwriaethol ynghylch Saesneg yn y cwricwlwm newydd yn adlewyrchu hyn.”

Croesawodd UCAC yr eglurhad.

Roedd unfrydedd a ffyrnigrwydd yr ymateb yn wyneb y bygythiad yn dangos gwerth y dull trochi fel ffordd o greu dinasyddion dwyieithog.

Mae'n profi yn ogystal yr angen i barhau'n wylidawrus, i gadw llygad barcud ac i leisio barn a herio mewn trefn ddemocrataidd.

Llywodraeth Cymru – eisiau'ch barn

Mae Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar nifer fawr iawn o agweddau o fyd addysg ar hyn o bryd.

Hoffem dynnu'ch sylw at ddau ymgynghoriad yn benodol – a'ch annog i ymateb.



Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft

Dyddiad cau: **22 Mawrth**

<https://beta.llyw.cymru/cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-drafft>

Pasiwyd y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg ddechrau 2018. Mae Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar hyn o bryd ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (drafft) newydd fydd yn ganllaw manwl i ymarferwyr ar y system ADY ar ei newydd wedd. Mi fydd hon yn ddogfen sy'n berthnasol i bob aelod o weithlu addysg ysgolion.



Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol

Dyddiad cau: **25 Mawrth**

<https://beta.llyw.cymru/cenhadaeth-ein-cenedl-cwricwlwm-trawsnewidiol>

Dyma'r Papur Gwyn sy'n gwneud cynigion ar gyfer y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y cwricwlwm a threfniadau asesu newydd. Nid yw'n manylu ynghylch cynnwys y cwricwlwm newydd, ond mae'n gosod y gofynion statudol cyffredinol. Caiff mwy o fanylder ynghylch cynnwys y cwricwlwm ei gyhoeddi ym mis Ebrill eleni.

Adnoddau • Adnoddau • Adnoddau

Ydych chi'n chwilio am adnoddau, gweithgareddau a syniadau ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd? Mae gwefan Adnoddau Addysgol CBAC yn cynnwys amrywiaeth eang o adnoddau i gefnogi cymwysterau newydd.

Ewch at <http://adnoddau.cbac.co.uk> i gael mynediad rhad ac am ddim at yr adnoddau sydd yno ar eich cyfer.

Dyma rai enghreifftiau o'r lluo o adnoddau newydd sydd ar y wefan:



CA4 – Bwyd a Maeth:


Ystyriaethau ar gyfer coginio prydau sawrus

Pecyn rhyngweithiol sy'n seiliedig ar y poster 'Ystyriaethau ar gyfer coginio prydau sawrus' gan Hybu Cig Cymru. Mae'r gwaith yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer pob rhan o'r poster ynghyd ag ymarferion a gweithgareddau rhyngweithiol. Diolch i Hybu Cig Cymru am eu cydweithrediad wrth baratoi'r adnodd hwn.



CA3/4/5 – Seicoleg: Gweithgareddau Meddwl

Dyma gyfres o weithgareddau i annog meddwl pellach ynglŷn â'r syniadau a'r cysyniadau a addysgwyd gennych. Gallwch eu defnyddio yn eich gwersi neu ar gyfer aseiniadau gwaith cartref (yn enwedig os ydych yn 'fflipio' eich dosbarth). Maent yn fodd da hefyd i annog technegau adolygu mwy gweithredol.



CA4 / 5 – Drama: Arddull Theatr

Adnodd sy'n cynnwys naw cyfweiliad fydd yn rhoi gwybodaeth i fyfyrwyr Drama a Theatr (TGAU a Safon U/UG) er mwyn eu hannog i arbrofi gydag arddulliau newydd wrth ystyried perfformio dramâu. Mae'r adnodd hwn wedi ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru.



CA5 – Daearyddiaeth:

Dysgu trwy Ddaearyddiaeth

Mae'r adnodd yn cefnogi addysgeg rhyngweithiol gyfredol, gan gynnwys asesu ar gyfer dysgu.

Mae'r adnodd yn datblygu dealltwriaeth a sgiliau daearyddol drwy weithgareddau sydd â ffocws penodol ar lythrennedd a rhifedd ac yn canolbwyntio'n arbennig ar sgiliau rhifedd a mathemategol fel y nodir ym manyleb CBAC. Mae'r adnodd hwn wedi ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru.



CA5 – Cymraeg: Ffair ffurfiau

Bwriad yr adnodd hwn yw cyflwyno enghreifftiau ar ffurfiau gwahanol gan amrywio awduron er mwyn sbarduno ymgeiswyr i ysgrifennu gogyfer ag asesiad di-arholiad Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf. Er mwyn i'r ymgeiswyr ddeall hanfodion y ffurfiau, lluniwyd nodiadau gan Esiyllt Maelor i gyd-fynd â'r enghreifftiau, a cheir cyflwyniadau llafar o'r nodiadau hynny gan Lois Llywelyn Williams.



Dilynwch adnoddau addysgol CBAC ar [@adnoddau_cbac](https://twitter.com/adnoddau_cbac)

o Nerth i Nerth



ARIAN PAROD AM GYFLWYNO AELODAU NEWYDD

Am bob aelod y llwyddwch i'w recriwtio i UCAC, byddwch **chi** a'r **aelod newydd** yn derbyn **£25 yr un**





AM RAGOR O FANYLION, EWCH I:
WWW.UCAC.CYMRU/RECRIWTIO
#oNerthiNerth 01970 639950



CYNHADLEDD FLYNYDDOL UCAC





BWCA

5-6 EBRILL 2019

GWESTY'R METROPOLE

KIRSTY WILLIAMS AC ■ GUTO AARON ■ TRACEY JONES

ADLONIAINT: **BWCA**

Cysylltwch am fwy o wybodaeth: 01970 639950 / ucac@ucac.cymru